estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales



# Adolygiad o'r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru

**Mai 2024**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Argymhellion** | **11** |
| **1 Sefydlu a chynnal rhaglenni prentisiaethau iau** | **12** |
| Sut caiff rhaglenni prentisiaethau iau eu cytuno, eu sefydlu a'u cynnal? | 12 |
| **2 Recriwtio a dewis disgyblion ysgol ar gyfer prentisiaethau iau** | **16** |
| Sut caiff dysgwyr prentisiaethau iau eu recriwtio a'u dewis? | 16 |
| **3 Cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau** | **19** |
| Sut caiff rhaglenni prentisiaethau iau eu cyflwyno? | 19 |
| **4 Effaith rhaglenni prentisiaethau iau** | **24** |
| Beth yw effaith rhaglenni prentisiaethau iau? | 24 |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **28** |
| **Niferoedd – meintiau a chyfrannau** | **29** |
| **Cyfeiriadau** | **30** |

## Crynodeb gweithredol

Mae’r rhaglen prentisiaethau iau yn cyfeirio at ystod o raglenni dysgu amser llawn â ffocws galwedigaethol sydd wedi’u lleoli mewn colegau addysg bellach (AB) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, a ariennir gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Yn ystod mis Medi i fis Tachwedd 2023, ymwelodd arolygwyr â phob un o’r pum coleg sy’n cynnig rhaglenni prentisiaethau iau. Cynhaliom gyfarfodydd ag arweinwyr a staff colegau, cynrychiolwyr o ysgolion ac awdurdodau lleol y dysgwyr, yn ogystal â chynnal gweithdai grwpiau ffocws gyda dysgwyr prentisiaethau iau presennol Blwyddyn 10 ac 11 a chyn-gyfranogwyr yn y rhaglen yn y colegau hyn. Ymwelom â gwersi prentisiaethau iau a chyfleusterau a ddefnyddir gan y dysgwyr hyn.

Trwy weithio mewn cydweithrediad agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol, mae’r colegau hyn wedi datblygu ystod o raglenni effeithiol sy’n gweithredu o dan ganllawiau prentisiaethau iau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 sy’n cymryd rhan i fynychu coleg ar sail amser llawn. Mae’r trefniadau hyn wedi hen ennill eu plwyf erbyn hyn mewn 5 o’r 12 coleg yng Nghymru ar ôl cyflwyno’r rhaglen i ddechrau yn 2017. Ar hyn o bryd, mae’r rhaglen yn cynnwys tua 150 o ddysgwyr ar draws y 5 coleg. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr mewn llawer o ardaloedd o Gymru yn cael cyfleoedd tebyg am nad oes unrhyw drefniadau cydweithredol lleol ar waith o fewn eu hardaloedd i gefnogi cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau.

Rydym wedi nodi nifer o ffactorau allweddol sy’n sail i sefydlu rhaglenni prentisiaethau iau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cydweithio agos, gyda chyfathrebu agored ac effeithiol rhwng colegau, ysgolion ac awdurdodau lleol
- ystod o lwybrau galwedigaethol amgen ar gyfer dysgwyr
- hyblygrwydd i fodloni cyd-destunau lleol
- darparu adnoddau priodol ar gyfer y rhaglenni gan ddefnyddio cyfuniad o gyllid a ddefnyddir trwy fecanweithiau cyllid awdurdodau lleol, ysgolion ac addysg bellach

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol fel arfer yn gweithio’n agos gyda cholegau i dargedu lleoedd prentisiaethau iau sydd ar gael yn bennaf ym Mlwyddyn 10 ac 11 ar gyfer dysgwyr sy’n ei chael yn anodd ymgysylltu â chwricwlwm prif ffrwd traddodiadol, y mae ganddynt ddiddordeb arbennig mewn opsiynau galwedigaethol yn gysylltiedig â gwaith. Mae rhaglenni prentisiaethau iau mewn colegau sydd â’r nifer fwyaf o brentisiaid iau wedi’u gordanysgrifio’n gyson. Mae hyn yn adlewyrchu dulliau recriwtio a dewis systematig a thrylwyr yn y meysydd hyn, yn ogystal â hoffterau’r dysgwyr hynny y mae’n well ganddynt ymagweddau at ddysgu sy’n fwy ymarferol ag iddynt ffocws galwedigaethol. Nid yw argaeledd y wybodaeth o fewn ysgolion am gyfleoedd prentisiaethau iau yn ddigon cyson, ac mae ychydig o ddysgwyr a rhieni / gofalwyr dim ond yn dod yn ymwybodol o’r rhaglen trwy ffrindiau neu deulu yn hytrach nag yn uniongyrchol gan eu hysgolion.

Er ein bod wedi canfod bod trefniadau pontio cyffredinol yn effeithiol ac yn hynod bwysig wrth helpu dysgwyr i addasu i amgylchedd dysgu newydd ac arddull ddysgu wahanol, mewn ychydig achosion, roedd diffyg rhannu gwybodaeth a chyfathrebu amserol yn rhwystro parhad y trefniadau cymorth ar gyfer dysgwyr unigol.

Roedd trefniadau o ran cyflwyno ac amserlen yn wahanol rhwng colegau ac ar gyfer gwahanol lwybrau galwedigaethol. Er bod canllawiau’n datgan y dylai rhaglenni fod yn debyg i oriau addysgu ysgol amser llawn, yn ymarferol, roedd lleiafrif o raglenni a dysgwyr wedi’u hamserlennu am lai o oriau nag yn yr ysgol. Nid oedd cynlluniau cymorth bugeiliol unigol a allai ganiatáu hyn bob amser yn cael eu hadolygu’n ddigon effeithiol i gefnogi dychwelyd at addysg a phresenoldeb amser llawn. Nodwyd hefyd fod ystyriaethau yn gysylltiedig â theithio yn hynod bwysig i gynllunio amserlenni ac yn aml yn cyfrannu at bryderon ynghylch presenoldeb a phrydlondeb.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr a arsylwom yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prentisiaethau iau dynodedig yng nghyfleusterau galwedigaethol y colegau, fel gweithdai neu salonau, lle cynhelir dosbarthiadau ar gyfer dysgwyr hŷn, hefyd. Yn yr achosion prin iawn lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglenni ôl-16, canfuom nad oedd y trefniadau ar gyfer asesiadau risg diogelu unigol bob amser yn ddigon clir neu drylwyr.

Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau’r ffocws cryf ar bynciau galwedigaethol a gweithgareddau ymarferol. Adlewyrchwyd eu hymgysylltiad gwell mewn dysgu mewn cyfraddau llwyddo uchel iawn ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei chael yn anodd ennill cymhwyster gradd D neu’n uwch mewn TGAU Saesneg, mathemateg neu rifedd o hyd. Roedd hyn yn cael ei gymhlethu gan bresenoldeb gwael ar gyfer y dosbarthiadau TGAU hynny sy’n cael eu cyflwyno mewn ysgolion o hyd fel rhan o rai rhaglenni prentisiaethau iau. Roedd dysgwyr yn fwy cadarnhaol am y cyrsiau TGAU hyn lle roedd athrawon yn defnyddio cyd-destunau galwedigaethol i amlygu cymwysiadau defnyddiol o gynnwys pwnc.

Nodom ystod o effeithiau cadarnhaol y rhaglen prentisiaethau iau, gan gynnwys:

- lefelau gwell o ymgysylltu a phresenoldeb
- cyfraddau llwyddo uchel iawn mewn cymwysterau galwedigaethol a gynigir
- adborth cadarnhaol cryf gan ddysgwyr
- cyfraddau dilyniant cryf i addysg bellach a hyfforddiant

Y trawsnewidiad yn agweddau llawer o ddysgwyr at ddysgu, o ymddieithrio cymharol i wneud dewisiadau brwdfrydig ac uchelgeisiol i ymrwymo a pharhau i ddysgu ôl-orfodol, oedd effaith gyffredinol fwyaf trawiadol y rhaglen prentisiaethau iau.

Nodom gyfanswm o 8 argymhelliad, sydd wedi’u bwriadu i gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru, colegau addysg bellach, ysgolion ac awdurdodau lleol sy’n cymryd rhan mewn cyflwyno rhaglenni dysgu i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed ledled Cymru.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu cyflwyno'r rhaglenni prentisiaethau iau yng Nghymru. Mae'r rhaglen prentisiaethau iau yn cyfeirio at ystod o raglenni dysgu amser llawn â ffocws galwedigaethol sydd wedi'u lleoli mewn colegau addysg bellach (AB) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, a ariennir gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhaglenni hyn yn gweithredu o dan ystod o enwau gwahanol, er bod pob un ohonynt yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyfleoedd dysgu galwedigaethol estynedig ochr yn ochr ag elfennau statudol y cwricwlwm. Nod yr adroddiad yw amlygu arfer dda a nodi rhwystrau rhag cyflwyno'r rhaglen yn effeithiol gan golegau addysg bellach. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried effaith y rhaglen prentisiaethau iau ar ddeilliannau dysgwyr.

Ysgrifennwyd yr adroddiad i ymateb i gais gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn llythyr cylch gwaith blynyddol Estyn 2023 i 2024 fel y'i diweddarwyd ym mis Hydref 2023. Mae'r adroddiad yn berthnasol i golegau addysg bellach, ysgolion, awdurdodau lleol, dysgwyr a rhieni, yn ogystal ag i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Mae'r adroddiad yn defnyddio ymweliadau â phob un o'r pum coleg addysg bellach sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau ar hyn o bryd, a thystiolaeth o arolygiadau ac ymweliadau ymgysylltu diweddar â cholegau addysg bellach dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhaliwyd yr ymweliadau â'r pum darparwr presennol (Coleg Pen-y-bont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr Abertawe a Grŵp NPTC) rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2023.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro mewn pedair adran ar wahân.

Yn adran 1, rydym yn nodi sut mae prentisiaethau iau wedi esblygu ers eu cyflwyno i ddechrau ledled Cymru yn 2017. Rydym yn esbonio sut caiff rhaglenni eu hariannu, lle mae dysgwyr wedi'u cofrestru a faint o golegau sy'n cynnig y rhaglen, gan nodi rhesymau pam nad yw colegau eraill efallai'n cymryd rhan yn y rhaglen.

Yn adran 2, rydym yn trafod sut caiff dysgwyr eu recriwtio a'u dewis ar gyfer rhaglenni prentisiaethau iau, yn nodi'r rhesymau dros ddosbarthiad anghyfartal y ddarpariaeth hon ledled Cymru, ac yn esbonio ymagweddau targedig at nodi dysgwyr ar y dechrau sy'n gweddu orau i'r rhaglen. Rydym yn rhannu'r hyn a ddywedodd dysgwyr wrthym am eu teimladau cyn ymuno â'r rhaglen, a sut cafodd dysgwyr eu cynorthwyo i addasu i'w hamgylchedd dysgu newydd ac ymagwedd wahanol at ddysgu.

Mae Adran 3 yn rhoi manylion am sut caiff rhaglenni prentisiaethau iau eu cyflwyno, rôl cyllid Llywodraeth Cymru, gofynion presenoldeb dysgwyr, ffocws y cwricwlwm mewn rhaglenni prentisiaethau iau, trefniadau logistaidd fel teithio i'r coleg, gofynion ar gyfer cymwysterau Saesneg a mathemateg TGAU, a gwahanol ymagweddau at weithgareddau tiwtorial a chyfoethogi. Wedyn, rydym yn trafod arwyddocâd meintiau dosbarthiadau, rôl hyfforddwyr dysgu, trefniadau staff addysgu, cyfleusterau dysgu, cyfrifoldebau diogelu a defnyddio cynlluniau cymorth bugeiliol ar gyfer dysgwyr.

Yn adran 4, mae'r adroddiad yn gorffen trwy werthuso effaith rhaglenni prentisiaethau iau, gan gynnwys cyfraniadau at waith lleol i leihau nifer y bobl ifanc NACH (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), cyfraddau presenoldeb dysgwyr, adborth gan ddysgwyr, Saesneg, mathemateg a medrau rhifedd, cyrchfannau dilyniant a buddion personol, cymdeithasol ac economaidd posibl.

Rydym yn diolch i'r holl ddysgwyr a staff o golegau addysg bellach ac ysgolion, a chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, a gymerodd ran yn ein hymweliadau a'n cyfarfodydd am eu cyfraniad at yr adroddiad hwn.

# Cefndir

## Beth yw rhaglen prentisiaethau iau?

Gwelir bod prentisiaethau iau yn wahanol iawn i raglenni cyswllt ag ysgolion. Mae rhaglenni cyswllt ag ysgolion yn tueddu i ddarparu elfennau llawer llai o weithgareddau a chymwysterau dysgu ag iddynt ffocws galwedigaethol ochr yn ochr â chwricwlwm sydd wedi’i leoli yn yr ysgolm yn bennaf. Mewn cyferbyniad, mae dysgwyr ar brentisiaethau iau yn tueddu i astudio’n gyfan gwbl, neu’n bennaf, o fewn coleg addysg bellach.

Er eu bod yn cael eu galw’n brentisiaethau iau, nid yw’r rhaglenni hyn wedi’u seilio ar unrhyw fframweithiau prentisiaethau penodol na safonau penodol manwl. Mae colegau unigol yn defnyddio amrywiaeth o deitlau neu frandiau a gytunwyd yn lleol wrth gyfeirio at raglenni a gefnogir gan gyllid prentisiaethau iau.

## Beth yw diben rhaglenni prentisiaethau iau ac ar gyfer pwy y maent wedi’u bwriadu?

Trefnwyd bod y cyllid ar gael i helpu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau i weithio gyda’i gilydd i gynnig darpariaeth addysg ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 ac 11, a gyflwynir o fewn colegau AB.

Mae cyfeiriadur rhaglenni 2023/24 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023a) yn darparu rhestr i ddarparwyr ôl-16 o raglenni dysgu sy’n gymwys ar gyfer cyllid a gofynion dysgwyr. Mae’n datgan y canlynol:

> Mae Prentisiaethau Iau yn cynnig y cyfle i ddisgyblion Blynyddoedd 10 ac 11 astudio yn llawn amser ar gyfer gyrfa yn y dyfodol mewn lleoliad Coleg o 14 oed ymlaen. Mae'r rhaglen yn cynnig rhaglen ddwy flynedd o addysg yn gysylltiedig â gwaith ac yn cynnwys profiad gwaith, ochr yn ochr â chwrs Lefel 2 sy'n gyfwerth â phedwar neu bump TGAU, mewn amrywiaeth o wahanol lwybrau galwedigaethol. Mae pob prentis hefyd yn astudio TGAU mewn mathemateg a Saesneg ochr yn ochr â'u dewis faes. Mae yna nifer o godau rhaglenni yn y cyfeiriadur i adlewyrchu'r llwybrau Prentisiaeth Iau gwahanol.
>
> Dylai fod gan bob prentis iau fynediad i gefnogaeth gydag addysgu a dysgu, cymorth gyda rheoli ymddygiad, a Swyddog Lles dynodedig i gefnogi materion o ddydd i ddydd a darparu gofal bugeiliol. Nod y Brentisiaeth Iau yw gwneud y dysgwr yn gyflogadwy neu’n barod i symud ymlaen i gwrs lefel-uwch galwedigaethol neu brentisiaeth yn 16 oed. Ariennir y Rhaglen Prentisiaethau Iau yn bennaf gan yr Awdurdod Lleol ac felly mae'n hanfodol bod cytundeb rhwng yr Awdurdod Lleol a’r Coleg cyn cytuno ar y ddarpariaeth hon. (Llywodraeth Cymru, 2023, tud.9)

Mae’r un canllawiau a ddangosir uchod hefyd wedi’u cynnwys yn y dogfennau Canllawiau i Ysgolion ar Brentisiaethau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018a, tud.16-17) a Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Brentisiaethau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018b, tud.15-16).

## Pa raglenni prentisiaethau iau sydd ar gael a beth yw’r gofynion cyflwyno cyffredinol ar gyfer y rhain?

Mae wyth o raglenni prentisiaethau iau wedi’u rhestru yn y cyfeiriadur i gyd (Llywodraeth Cymru, 2023a, tud.31), fel a ganlyn:

1. Gwasanaethau cyhoeddus
2. Tirlunio
3. Saernïo a Weldio
4. Peirianneg Fodurol
5. Adeiladu
6. Gwallt a Harddwch
7. Lletygarwch ac Arlwyo
8. Y Cyfryngau

Mae gwybodaeth ategol sydd wedi’i chynnwys yn y rhestr yn datgan ei bod yn ofynnol i ddysgwyr ar y rhaglenni hyn ddilyn cwricwlwm amser llawn yn unol â diwrnod ysgol.

Mae mwy o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018c) yn amlinellu manylion yn ymwneud â phennu dyddiadau tymhorau a phennu sesiynau. Mae hyn yn datgan y canlynol:

> Rhaid i sesiynau ganiatáu digon o amser gwersi i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys sy’n cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae ysgolion yn rhydd i benderfynu hyd pob gwers, ond mae’r argymhellion presennol fesul wythnos fel a ganlyn:

| Oedran | Isafswm amseroedd gwersi wythnosol a awgrymir (oriau) |
|---|---|
| 5-7 | 21.0 |
| 8-11 | 23.5 |
| 12-16 | 25.0 |

> Mae’r isafswm amseroedd gwersi wythnosol a awgrymir yn ymwneud ag oriau pan gaiff disgyblion eu haddysgu.

## Beth yw’r trefniadau cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaethau iau?

Cyflwynwyd cyllid prosiect penodol ar gyfer prentisiaethau iau yn 2016 a’i gyflwyno ledled Cymru yn 2017. Trefnwyd bod y cyllid hwn ar gael i ddarparu cyfraniad tuag at gostau cyffredinol darparu rhaglenni prentisiaethau iau.

## Ble mae rhaglenni prentisiaethau iau ar gael?

Mae 8 o’r 12 coleg AB yng Nghymru wedi manteisio ar gyllid prentisiaethau iau rywbryd ers i’r cyllid fod ar gael. Mae 5 o’r colegau hyn yn defnyddio cyllid prentisiaethau iau ar hyn o bryd. Ymwelom â phob un o’r 5 darparwr yn hydref 2023 fel rhan o’r adolygiad hwn.

## Beth ydym ni eisoes yn ei wybod am raglenni prentisiaethau iau?

Yn sgil datblygu a chyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau ledled Cymru, mae amrywiaeth o randdeiliaid allweddol wedi cyhoeddi dogfennau a pholisïau sydd wedi’u cynllunio i amlygu materion allweddol a ffurfio darpariaeth, polisïau lleol a chenedlaethol yn y dyfodol.

Wrth ddatblygu polisi ar brentisiaethau iau yng Nghymru gan un o’r undebau llafur sy’n cynrychioli staff yn y sector ôl-16 (Undeb Prifysgolion a Cholegau, 2019), amlygwyd pryderon staff ynghylch ymddygiad myfyrwyr ar raglenni prentisiaethau iau, a bod diffyg datblygiad proffesiynol parhaus priodol i staff ar sut i ddelio â phroblemau ymddygiad myfyrwyr.

Mynegodd cyhoeddiad gan Colegau Cymru (2021) y farn, er bod darpariaeth eisoes ar waith i ddarparu dysgu galwedigaethol ar gyfer rhai dysgwyr 14 i 16 oed, gan gynnwys prentisiaethau iau, nid oedd adnoddau sicr na digonol ar gyfer hyn. Croesawodd yr adduned am £800,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglenni prentisiaethau iau o 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017), ond pwysodd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu sylfaen gyfreithiol gadarn i ddysgwyr 14-16 oed fynd ymlaen i ddilyn llwybrau galwedigaethol a thechnegol a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach (SAB), lle ystyrir mai dyma’r opsiwn mwyaf priodol ar gyfer dysgwyr. Pwysodd ar y llywodraeth hefyd i gyflwyno deddfwriaeth i gydnabod mai pennaeth y coleg ddylai ysgwyddo’r cyfrifoldeb cyfreithiol o ran diogelu plentyn yr ystyrir mai’r lleoliad arferol iddo ddysgu yw mewn SAB.

Ar ôl Arolygiad Estyn o ddarpariaeth addysg bellach yng Ngholeg Pen-y-bont ym mis Mawrth 2022 (Estyn, 2022a), gwahoddwyd y coleg i baratoi astudiaeth achos arfer effeithiol ar ei waith yn ymwneud â rhaglenni prentisiaethau iau. Mae’r astudiaeth achos ddilynol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022 (Estyn, 2022b), yn rhoi cyd-destun a chefndir defnyddiol i’r rhaglen prentisiaethau iau, a ddarperir gan y coleg mewn partneriaeth â’r awdurdod lleol a’r ysgolion lleol. Dechreuwyd y rhaglen fel rhan o fenter ôl-16 Llywodraeth Cymru, Atebion Creadigol, a gynlluniwyd i gefnogi arloesi mewn addysg bellach.

**Cameo**

Yn astudiaeth achos Coleg Pen-y-bont ar brentisiaethau iau (Estyn, 2022b), pwysleisiwyd gwerth a phwysigrwydd prosesau pontio trylwyr ar gyfer y disgyblion ysgol hynny ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 sy'n gadael eu hamgylchedd ysgol i ymuno â'r rhaglen prentisiaethau iau yn y coleg. Disgrifiwyd prentisiaid iau fel pobl ifanc sy'n ei chael yn anodd aros yn amgylchedd yr ysgol ond yn dangos dawn o ran dysgu galwedigaethol. Roedd y dysgwyr hyn yn mynychu'r coleg ar sail amser llawn am bum niwrnod yr wythnos ac yn astudio cwricwlwm a oedd yn cynnwys cymwysterau TGAU craidd a chymhwyster galwedigaethol naill ai mewn adeiladu, gwallt a harddwch, neu chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd lle yn y coleg ar gyfer uchafswm o 90 dysgwr ar y rhaglen hon.

Nodweddion allweddol eraill y rhaglen a amlygwyd yn yr astudiaeth achos oedd cymorth cofleidiol unigol ar gyfer dysgwyr, yn cynnwys defnyddio hyfforddwyr dysgu arbenigol, darparu profiad yn gysylltiedig â gwaith a'r amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi. Amlygwyd effaith gadarnhaol y rhaglen trwy gyfraddau llwyddo uchel ar gymwysterau galwedigaethol a data cyrchfannau a gadarnhaodd fod llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i ddilyn cymwysterau ôl-16 yn y coleg, mewn astudio pellach, prentisiaethau neu gyflogaeth.

## Beth ydym ni'n ei wybod o ymchwil arall a rhaglenni tebyg mewn mannau eraill a allai lywio ein hymagweddau at brentisiaethau iau?

Er bod ychydig o elfennau sy'n debyg i raglenni sy'n gweithredu yn Lloegr sy'n caniatáu cofrestriad amser llawn dysgwyr 14 i 16 oed mewn colegau AB a chweched dosbarth, mae gwahaniaethau allweddol hanfodol, hefyd. Yn benodol, rhaid i golegau yn Lloegr fodloni gofynion penodol iawn o ran trefniadau cyflwyno a chyfleusterau fel yr amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth y DU ar gofrestriad amser llawn dysgwyr 14 i 16 oed mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth (Yr Adran Addysg, 2023).

Mae sawl cyhoeddiad yn trafod datblygiad prentisiaethau iau yng Nghymru o fewn cyd-destun ehangach datblygu cyfleoedd darpariaeth alwedigaethol ar gyfer disgyblion oedran ysgol, yn enwedig y rhai ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

Yn ei adroddiad yn nodi cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu polisi mewn AB a medrau ar draws pedair gwlad y DU, mae Edge Foundation (2018) yn cyfeirio at y rhaglen prentisiaethau iau yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro fel enghraifft o arfer ddiddorol. Mae'n pwysleisio sawl nodwedd allweddol, yn cynnwys:

- natur arloesol y rhaglen
- y ffocws ar nodi'n gynnar y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o fod yn bobl NACH
- astudio amser llawn yn y coleg o dan arweiniad arbenigwyr sy'n gymwys mewn diwydiant, mewn cyfleusterau galwedigaethol ac amgylcheddau gwaith go iawn
- ariannu prentisiaethau iau ar y cyd gan Gyngor Dinas Caerdydd, Coleg Caerdydd a'r Fro ac ysgolion Caerdydd
- ystod o 6 llwybr galwedigaethol (Modurol, Adeiladu, y Cyfryngau Digidol, Gwallt a

Harddwch, Lletygarwch ac Arlwyo, a Gwasanaethau Cyhoeddus)
- sicrwydd ynghylch naill ai prentisiaeth neu gwrs amser llawn yn y coleg i'r holl ddysgwyr sy'n cwblhau'r rhaglen prentisiaethau iau yn llwyddiannus

Roedd y ffactorau yr ystyriwyd eu bod yn cyfrannu at lwyddiant y rhaglen yn cynnwys y llwybrau clir at swydd sy'n talu'n dda, brwdfrydedd ymhlith staff, amgylchedd dysgu o ansawdd uchel a phwyslais cryf ar lwyddiant.

Archwiliodd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr Adran Addysg yn Lloegr y dystiolaeth ar gyfer strategaethau effeithiol sy'n cefnogi pobl ifanc mewn darpariaeth amgen i gynyddu cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4, a phontio'n llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16 (Yr Adran Addysg, 2017).

Nododd canfyddiadau'r ymchwil hon:

- mai nifer gymharol fach o raglenni darpariaeth amgen sy'n cael eu gwerthuso'n drylwyr gan ysgolion a darparwyr
- bod angen asesiad cynhwysfawr o anghenion a dyheadau disgybl, gan gynnwys mewnbwn gan ddisgyblion a rhieni neu ofalwyr, i sicrhau bod darpariaeth yn gweddu'n dda
- bod angen i athrawon addasu rhaglenni a thasgau yn unol ag anghenion ac arddulliau dysgu unigol disgyblion
- gwerth cynnwys rhieni a gofalwyr mewn ffordd gadarnhaol er mwyn darparu cymorth gwell i'w mab neu'u merch a chyflawni deilliannau cadarnhaol
- pwysigrwydd partneriaethau effeithiol rhwng rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ysgolion, colegau a chyflogwyr
- bod perthnasoedd cadarnhaol â staff a meistroli datblygu perthnasoedd parchus ag oedolion yn hanfodol ar gyfer symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach neu gyflogaeth
- manteision posibl ymyriadau therapiwtig ochr yn ochr â thechnegau ymddygiadol (sy'n pwysleisio atgyfnerthu cadarnhaol a defnyddio cosbau) i gefnogi pontio'n llwyddiannus i waith neu addysg bellach
- y diffyg consensws am rannau cyfansoddol cwricwlwm amgen, er bod y rhan fwyaf o lenyddiaeth yn cefnogi cwricwlwm sy'n cwmpasu medrau craidd, gan gynnwys mathemateg a Saesneg, ochr yn ochr â chynnig galwedigaethol sy'n ymgorffori lleoliadau gwaith
- gwerth a phwysigrwydd cyfarwyddyd grŵp bach a sylw unigol, gan deilwra sesiynau i anghenion unigol ac arddull addysgu hyrwyddol a chefnogol
- bod angen amrywiaeth eang o staff arbenigol sydd wedi'u hyfforddi'n dda, yn ofalgar ac yn wybodus

## Sut mae rhaglenni prentisiaethau iau yn cysylltu â chyd-destun ehangach datblygiadau 14-16 o fewn canllawiau ar gyfer ysgolion yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru?

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, diweddarwyd yn 2024) yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020 ar gyfer ysgolion a lleoliadau i'w ddefnyddio wrth ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain. Adeg ei gyhoeddi, roedd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad agored ar ganllawiau statudol drafft ar ddysgu 14-16 o dan Gwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024c).

Mae’r canllawiau drafft:

- yn amlinellu’r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm ysgol i ddysgwyr 14 i 16 oed o dan Gwricwlwm i Gymru
- wedi’u cynllunio i gynorthwyo ysgolion i gynllunio cwricwlwm sy’n bodloni’r gofynion hynny
- yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu ac addysgu ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Mae’r canllawiau’n amlinellu elfennau allweddol dysgu 14 i 16 oed o dan Gwricwlwm i Gymru. Fel rhan o Hawliau Dysgwyr 14 i 16 oed, mae’r canllawiau’n datgan y dylai ysgolion ofalu eu bod yn cynnig dewislen eang a chytbwys o ddewisiadau sy’n adlewyrchu anghenion eu dysgwyr, a ddylai gynnwys cymwysterau cyffredinol, galwedigaethol ac sy’n seiliedig ar fedrau ar bob lefel cymhwyster (LlC, 2024c. tud.7 adran 4.2.8). Mae’r canllawiau hefyd yn annog ysgolion i archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth – gydag ysgolion eraill a cholegau – lle bydd hyn yn galluogi’r ysgol i ehangu’r cynnig cwricwlwm sydd ar gael i’w dysgwyr a lle mae hyn er lles pennaf y dysgwyr hynny.

Er na chrybwyllir hyn yn benodol yn y canllawiau, mae rhaglenni prentisiaethau presennol wedi’u hanelu at ddysgwyr 14 i 16 oed ac eisoes wedi’u cynllunio i gynnwys cymwysterau cyffredinol, galwedigaethol ac yn seiliedig ar fedrau. Maent hefyd wedi cael eu datblygu trwy waith partneriaeth rhwng ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i ehangu’r cynnig cwricwlwm a diwallu anghenion a lles pennaf dysgwyr sy’n ei chael yn anodd ymgysylltu â dysgu ar hyn o bryd.

### Sut bydd prentisiaethau iau yn cael eu heffeithio gan waith diwygio cymwysterau yng Nghymru sy’n berthnasol i ddysgwyr 14 i 16 oed?

Yn ystod cyfnod yr adolygiad thematig hwn ac ar ôl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru fanylion am y cynnig cymwysterau 14-16 llawn. Bydd y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd ar waith erbyn mis Medi 2027. Byddant yn cynnwys cymwysterau o lefel mynediad i lefel 2 ar draws ystod o bynciau. Mae’r mathau o gymwysterau’n cynnwys:

- Cymwysterau TGAU Gwnaed-i-Gymru
- TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd)
- Cymwysterau sylfaen
- Cyfres Sgiliau – gyda chymwysterau Sgiliau Gwaith, Sgiliau Bywyd a Phrosiect Personol

Bydd angen i golegau ac ysgolion sy’n cynnig rhaglenni prentisiaethau iau adolygu’r cyfuniad presennol o gymwysterau a ddefnyddir o fewn rhaglenni prentisiaethau iau i adlewyrchu’r datblygiadau hyn cyn eu rhoi ar waith yn llawn yn 2027.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd cynhwysfawr ac amserol i’r holl ddisgyblion a’u rhieni neu’u gofalwyr am holl opsiynau’r cwricwlwm 14-16, gan gynnwys prentisiaethau iau lle mae’r rhain ar gael

A2 Cydweithio â cholegau ac awdurdodau lleol i werthuso cyfleoedd ar gyfer datblygu neu ymestyn rhaglenni prentisiaethau iau er mwyn ehangu eu harlwy cwricwlwm er budd pennaf y dysgwyr

**Dylai colegau addysg bellach:**

A3 Weithio’n agos gydag ysgolion i wneud yn siŵr fod cyfrifoldebau am drefniadau diogelu yn glir a bod asesiadau risg unigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob un o’r dysgwyr prentisiaethau iau

A4 Rhannu a chytuno ar drefniadau amserlen gydag ysgolion partner ac awdurdodau lleol ar gyfer pob un o’r dysgwyr prentisiaethau iau a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw newidiadau sy’n effeithio ar ddysgwyr unigol, fel trefniadau cynllun bugeiliol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A5 Egluro a chyfleu trefniadau cyllid yn y dyfodol ar gyfer prentisiaethau iau gydag ysgolion a cholegau

A6 Cydweithio â’u holl ysgolion a cholegau lleol i werthuso’r potensial ar gyfer cyflwyno neu ymestyn darpariaeth prentisiaethau iau i ymestyn cyfleoedd dysgu addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 sy’n cael trafferth ymgysylltu â darpariaeth brif ffrwd bresennol mewn ysgolion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Yn sgil sefydlu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), egluro a chyhoeddi manylion am gyfrifoldeb parhaus a threfniadau parhaus ar gyfer prentisiaethau iau a’u cyllid

A8 Adolygu gofynion penodol y cwricwlwm ar gyfer rhaglenni prentisiaethau iau fel yr amlinellir yng nghyfeiriadur rhaglenni Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cymwysterau Saesneg, mathemateg a rhifedd, i sicrhau bod nodau cymhwyster yn gweddu i anghenion a galluoedd dysgwyr unigol, ac yn adlewyrchu’r cymwysterau 14-16 cenedlaethol newydd sydd ar waith o fis Medi 2027

## (1) Sefydlu a chynnal rhaglenni prentisiaethau iau

### Sut caiff rhaglenni prentisiaethau iau eu cytuno, eu sefydlu a’u cynnal?

Mae rhaglenni prentisiaethau iau wedi esblygu o raglenni blaenorol a ariennir trwy rwydweithiau ardal leol 14-19 a chyllid prosiect Llywodraeth Cymru. Mae rhaglenni prentisiaethau iau yn cynnwys cydweithio rhwng colegau AB, awdurdodau lleol ac ysgolion. Canfu ein trafodaethau â’r rhanddeiliaid hyn fod sianelau cyfathrebu cryf yn hanfodol i sefydlu a chynnal rhaglenni prentisiaethau iau. Er enghraifft, gwelwyd bod trefniadau adrodd rheolaidd a chyswllt parhaus ag ysgolion partner yn hanfodol i lwyddiant y rhaglenni hyn.

Roedd rhaglenni’n cael eu cyflwyno naill ai’n gyfan gwbl neu’n bennaf o fewn colegau AB ac yn cael eu hariannu trwy gyfuniad o gyllid gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Roedd trefniadau cyllid lleol a lefelau cyllid cysylltiedig yn amrywio’n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Pan oedd coleg yn darparu rhaglenni yn gysylltiedig â mwy nag un awdurdod lleol, roedd y gwahaniaethau hyn hefyd yn golygu bod y cyllid cyffredinol a dderbynnir fesul dysgwr yn amrywio yn ôl pa ardal awdurdod oedd â chyfrifoldeb am y dysgwr. Mae’r gwahaniaethau hyn yn effeithio ar argaeledd prentisiaethau iau a’u natur ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Yn yr achosion gorau, roedd dysgwyr yn gallu dewis o blith ystod o lwybrau prentisiaethau iau, ond nid oedd cyfleoedd o’r fath ar gael mewn ardaloedd eraill o Gymru. Adlewyrchwyd y pryderon hyn hefyd yn adroddiad Colegau Cymru (2021), a gododd bryderon am ddigonolrwydd a diffyg sicrwydd am gyllid ar gyfer darpariaeth alwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau iau ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed.

Roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gofrestriad deuol, h.y. ar gofrestrau ysgol a choleg, naill ai am gyfnod cyfan neu’r rhan fwyaf o gyfnod eu rhaglen prentisiaethau iau. Yn yr achosion prin lle cafodd dysgwyr eu tynnu oddi ar gofrestr eu hysgol, caiff cyfrifoldeb am y dysgwyr hyn ei drosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a drefnir gan yr awdurdod lleol.


Mae colegau’n derbyn y mwyafrif o’u cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaethau iau trwy daliadau wedi’u cytuno ag awdurdodau lleol ac ysgolion, fel arfer fesul dysgwr. Mae’r cyllid hwn yn deillio o gyllidebau ysgolion prif ffrwd ac awdurdodau lleol, gan gynnwys grantiau datblygu disgyblion. Mae’r swm hwn o gyllid yn amrywio yn dibynnu ar drefniadau lleol. Mae colegau hefyd yn derbyn swm penodedig fesul dysgwr cymwys gan Lywodraeth Cymru.

Er bod llawer o’r trafodaethau ynglŷn â sefydlu a chynnal rhaglenni prentisiaethau iau wedi canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â chyllid, dywedodd darparwyr hefyd fod angen ystyried eu cenhadaeth ddinesig ehangach wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth o’r fath. Roedd yn glir fod rhanddeiliaid yn cydnabod ac yn cael eu dylanwadu a’u cymell gan yr ystyriaethau ehangach hyn fel sbardunau allweddol ar gyfer cynnal rhaglenni prentisiaethau iau.


Roedd rhaglenni prentisiaethau iau yn cael eu cyflwyno mewn llwybrau galwedigaethol penodol wedi'u cyfuno ag elfennau allweddol o'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4. Roedd cyflogwyr yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol mewn ychydig o enghreifftiau o raglenni prentisiaethau iau, trwy integreiddio gweithgareddau lleoliadau gwaith mewn modelau cyflwyno. Er enghraifft, roedd dysgwyr ar y llwybr cyfryngau prentisiaethau iau a gyflwynir gan Goleg Caerdydd a'r Fro yn mynychu sesiynau wythnosol rheolaidd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru i archwilio'r ffordd y mae theatr yn gweithio, a datblygu'r medrau technegol sydd eu hangen i weithio yn y diwydiant hwn. Fodd bynnag, canfuom fod cyfleoedd cyffredinol i ddysgwyr prentisiaethau iau fynd ar leoliadau profiad gwaith allanol yn gyfyngedig.

Ers cyflwyno cyllid prentisiaethau iau ledled Cymru er 2017, mae 8 o'r 12 coleg AB yng Nghymru wedi cynnal rhaglenni prentisiaethau iau. Ar hyn o bryd, roedd darpariaeth prentisiaethau iau ar gael mewn 5 o'r colegau hyn. Mae 3 choleg wedi tynnu'n ôl o gynnal rhaglenni prentisiaethau iau. Nododd trafodaethau ag arweinwyr colegau fod ystod o ffactorau sy'n rhwystrau posibl rhag sefydlu, cynnal neu ymestyn darpariaeth prentisiaethau iau. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn gysylltiedig â chyllid, cytundeb annigonol canfyddedig gan rai ysgolion ac/neu awdurdodau lleol, pryderon ynghylch ymddygiad dysgwyr a materion yn ymwneud â darparu adnoddau a chyfyngiadau, fel ystyriaethau ynghylch staffio neu gyfleusterau. Nid yw'r 4 coleg AB sy'n weddill wedi cynnal unrhyw ddarpariaeth prentisiaethau iau eto. Dangosir crynodeb isod o gyfanswm nifer y dysgwyr a gofnodwyd ar raglenni prentisiaethau iau ym mhob un o'r blynyddoedd rhwng 2017 a 2022, ynghyd â dadansoddiad yn ôl rhaglen a darparwr.


**Tabl 1: Nifer y dysgwyr a gofnodwyd ar raglenni prentisiaethau iau, 2017 i 2022, yn gyffredinol**



**Tabl 2: Nifer y dysgwyr a gofnodwyd ar raglenni prentisiaethau iau, 2017 i 2022, yn ôl llwybr rhaglen**




**Tabl 3: Nifer y dysgwyr a gofnodwyd ar raglenni prentisiaethau iau, 2017 i 2022, yn ôl darparwr coleg**




**Tablau 1-3: Ffynhonnell – data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**

Mewn colegau lle roedd rhaglenni prentisiaethau iau yn weithredol ac wedi’u sefydlu’n dda, nid yw ychydig o lwybrau wedi cael eu cynnal bob amser. Er enghraifft, er 2021-2022, nid yw unrhyw un o’r colegau wedi cynnig llwybr prentisiaethau iau dynodedig mewn gwasanaethau cyhoeddus, a dywedwyd mai galw annigonol oedd y prif reswm dros derfynu’r ddarpariaeth hon.

Adeg ein hymweliadau â darparwyr prentisiaethau iau, roedd rhanddeiliaid yn ansicr ac yn hynod bryderus am drefniadau cyllid yn y dyfodol o ran prentisiaethau iau. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf ag effaith bosibl creu’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru (CTER), sef yr awdurdod strategol hyd braich newydd sy’n gyfrifol am gyllid a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 o fis Awst 2024. Bydd cyfrifoldeb am ariannu gweithgarwch cyn-16 yn aros gyda Llywodraeth Cymru ar ôl sefydlu’r CTER. Ym mis Ebrill 2024, nid oedd y mecanwaith ar gyfer cymorth ychwanegol a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer prentisiaethau iau wedi cael ei gadarnhau eto.

Bydd y gwaith i ddiwygio Cymwys ar gyfer y Dyfodol sy’n cael ei wneud gan Cymwysterau Cymru i ffurfio Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd yng Nghymru hefyd yn effeithio ar gymwysterau a gyflwynir fel rhan o raglenni prentisiaethau iau. Bydd angen i golegau ac ysgolion ailedrych ar gyfansoddiad manwl y rhaglenni hyn ar ôl cadarnhau’r manylion llawn am y cymwysterau newydd.

## (2) Recriwtio a dewis disgyblion ysgol ar gyfer prentisiaethau iau

### Sut caiff dysgwyr prentisiaethau iau eu recriwtio a’u dewis?

At ei gilydd, dangosodd ein trafodaeth â darparwyr sy’n golegau, hyd yn oed lle mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cefnogi darpariaeth prentisiaethau iau, mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol ac/neu ar gyfer llawer o lwybrau galwedigaethol, roedd yn aml yn anodd recriwtio màs critigol o ddysgwyr i’r rhaglen. Mae hyn yn arbennig o wir yn nalgylchoedd colegau sy’n fwy prin o ran eu poblogaeth. O ganlyniad, mae argaeledd cyfleoedd prentisiaethau iau wedi’i wasgaru’n anghyfartal ledled Cymru. Er enghraifft, ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw lwybrau rhaglenni prentisiaethau iau ar gael ar draws y mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol, gan gynnwys gogledd Cymru i gyd. Yn yr un modd, ar draws pob ardal, prin iawn oedd yr enghreifftiau o ddysgwyr sy’n siarad Cymraeg sy’n manteisio ar ddarpariaeth prentisiaethau iau.

Pan roedd llwybrau prentisiaethau iau gweithredol ar gael, roedd mynediad at raglenni prentisiaethau iau o fewn colegau wedi’i dargedu’n bennaf at ddisgyblion penodol neu grwpiau penodol o ddisgyblion yn hytrach na bod y rhaglenni hyn ar gael ar sail mynediad agored i holl ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau atgyfeirio a dewis gan golegau, ysgolion ac awdurdodau lleol mewn ardaloedd lleol sy’n cynnig rhaglenni prentisiaethau iau er mwyn nodi dysgwyr posibl a dyrannu lleoedd sydd ar gael. Mae dulliau targedig yn tueddu i flaenoriaethu’r rhai a oedd wedi cael trafferth ymgysylltu â darpariaeth ysgol brif ffrwd ac yn benodol yn wynebu risg o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mae opsiwn rhaglen prentisiaethau iau, lle mae’r rhain ar gael, yn aml yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen i opsiynau addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

Roedd y darparwyr coleg prentisiaethau iau mwy yn tueddu i dderbyn cryn dipyn yn fwy o geisiadau bob blwyddyn nag y gallent eu bodloni. Roedd dulliau recriwtio a dewis yn hynod systematig a thrylwyr lle roedd rhaglenni wedi’u gordanysgrifio. Roedd y prosesau mwyaf trylwyr yn cynnwys darparu gwybodaeth helaeth am ymgeiswyr a dulliau gwneud penderfyniadau a chymeradwyo ffurfiol gan banel.

Adlewyrchwyd diffyg argaeledd mynediad agored at y rhaglen prentisiaethau iau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 mewn anghysondebau mewn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cychwynnol. At ei gilydd, nid oedd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar brentisiaethau iau yn rhoi i ddysgwyr a rhieni neu ofalwyr y wybodaeth roedd ei hangen arnynt am gyfleoedd prentisiaethau iau, ac o ganlyniad, weithiau, roeddent yn dibynnu gormod ar gysylltiadau anffurfiol neu rwydweithiau personol yn hytrach nag elwa ar ymagweddau mwy systematig ac agored at ddarparu’r wybodaeth hon. Daw ychydig o ddysgwyr neu’u rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o brentisiaethau iau trwy argymhelliad yn hytrach na chael gwybod gan eu hysgol, awdurdod lleol neu goleg. Er enghraifft, dywedodd ychydig o ddysgwyr prentisiaethau iau presennol wrthym eu bod wedi dod i wybod am y ddarpariaeth hon naill ai trwy eu ffrindiau neu’u rhieni neu ofalwyr yn dod i wybod trwy eu grwpiau ffrindiau neu

oherwydd bod ganddynt berthnasau sy’n gweithio mewn ysgol neu goleg sy’n cynnig y rhaglen.

Dywedodd llawer o ddysgwyr wrthym, cyn ymuno â’r rhaglen prentisiaethau iau, eu bod yn eithriadol o anhapus yn yr ysgol am amryw resymau. Roedd y rhesymau a grybwyllwyd gan ddysgwyr yn cynnwys eu profiadau o fod mewn helynt yn yr ysgol yn aml, bod yn absennol o’r ysgol yn aml, profi problemau’n ymwneud â ffrindiau neu fwlio, teimlo’u bod yn garcharor o fewn yr ysgol, ddim yn hoffi cwricwlwm yr ysgol a’r gwersi, a dosbarthiadau mawr yn arwain at ddiffyg cymorth. Dywedodd bron pob un o’r dysgwyr eu bod yn teimlo’n llawer hapusach ac yn mwynhau eu profiadau dysgu’n fwy ers ymuno â’r rhaglen prentisiaethau iau. Mae enghreifftiau penodol o adborth dysgwyr wedi’u cynnwys yn adran 4 yr adroddiad hwn lle trafodir effaith prentisiaethau iau.

Roedd trefniadau pontio yn hynod bwysig a buddiol i sicrhau cyfatebiaeth briodol rhwng ymgeiswyr a natur y rhaglen. Pan mae’r rhain yn gweithio’n dda, ceir cyswllt agos, rhennir gwybodaeth yn agored a cheir deialog reolaidd rhwng staff yr ysgol a’r coleg yn ystod y cyfnod cyn i ddysgwyr ddechrau ar y rhaglen prentisiaethau iau a thrwy gydol cyfnodau cychwynnol y rhaglen.

Roedd cymryd rhan yn y rhaglen prentisiaethau iau sydd wedi’i lleoli’n gyfan gwbl neu’n bennaf mewn coleg addysg bellach yn golygu newid sylweddol i ddysgwyr a rhieni, o ran teithio i’r coleg a natur y rhaglen ddysgu ei hun. Er enghraifft, roedd yr amser a’r pellterau i fynd i’r coleg lle cyflwynir y rhaglen yn aml gryn dipyn yn fwy na’r amser a’r pellterau a oedd yn ofynnol i deithio i’w hysgol leol. Hefyd, rhaid i ddysgwyr allu addasu i fywyd coleg, gan gynnwys rhyngweithio ag ystod ehangach o lawer o ddysgwyr yn yr amgylchedd dysgu ehangach, a’r tu allan, neu ddod yn fwy annibynnol wrth deithio i’r coleg, ac oddi yno, lle mae’n ofynnol defnyddio cludiant cyhoeddus ar gyfer hyn.

Mae’r ffactorau hyn yn ystyriaethau pwysig ar gyfer pawb sy’n cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn gwneud penderfyniadau am gyfranogiad posibl dysgwyr unigol mewn rhaglen prentisiaethau iau. Yn benodol, mae hyn yn amlygu pwysigrwydd nodi’r dysgwyr hynny sydd fwyaf tebygol o fod â’r gwydnwch a’r ymroddiad angenrheidiol, neu’n gallu eu datblygu, i ymgysylltu, cynnal ac elwa ar ddarpariaeth o’r fath.

Er bod llawer o ddysgwyr a ddewisodd ymuno â’r rhaglen prentisiaethau iau yn hapus â’u dewis ac yn gallu cynnal eu cyfranogiad, roedd ychydig o ddysgwyr yn cael trafferth ymdopi â’r gofynion logistaidd a’r ymrwymiad sydd eu hangen. Cydnabu cynrychiolwyr colegau, ysgolion ac awdurdodau lleol nad yw logisteg mynychu coleg ar sail amser llawn a natur y rhaglenni bob amser yn gweddu i bawb, ac nad oedd cael eu rhiant ysgol i weithredu fel rhwyd ddiogelwch yn arbennig o bwysig.

Yn yr achosion mwyaf effeithiol, rhoddodd darparwyr sicrwydd i ddysgwyr a rhieni neu ofalwyr nad oedd y symud o’r ysgol i’r coleg wedi’i fwriadu i fod yn ‘stryd unffordd’ ac y byddai lle mewn ysgol ar gael o hyd pe bai angen. Yn yr achosion prin lle nad oedd dysgwyr yn dychwelyd i’w hysgol ar ôl dilyn rhaglen prentisiaethau iau, roedd darparwyr coleg fel arfer yn ceisio ôl-lenwi unrhyw leoedd gwag sy’n dod ar gael lle roedd yn ymarferol gwneud hynny.

Ym mhob coleg, roedd recriwtio i lwybrau galwedigaethol unigol o fewn y rhaglen prentisiaethau iau yn adlewyrchu'n gryf yr anghydbwysedd traddodiadol o ran rhywedd o fewn sectorau galwedigaethol penodol ac mewn rhaglenni prentisiaethau llawn. Er enghraifft, cafodd ychydig iawn o ddynion, os o gwbl, eu recriwtio ar lwybrau gofal neu wallt a harddwch ar draws pob un o'r colegau. Mewn cyferbyniad, cafodd ychydig iawn o fenywod, os o gwbl, eu recriwtio ar lwybrau adeiladu a pheirianneg ar draws yr un colegau. Er bod colegau'n cydnabod natur nodedig y gwahaniaethau hyn, nid oes digon o gynnydd yn cael ei wneud i herio neu fynd i'r afael â'r rhain fel rhan o'r prosesau nodi a dewis cychwynnol.

**Cameo – herio stereoteipiau traddodiadol o ran rhywedd o fewn meysydd galwedigaethol penodol**

Yng Ngholeg Pen-y-bont, bu ychydig o grwpiau o ddysgwyr prentisiaethau iau, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn llwybrau trin gwallt a harddwch a pheirianneg ac adeiladu, yn cymryd rhan mewn diwrnodau cyfnewid galwedigaethol neu ddiwrnodau rhagflas fel rhan o fenter i amlygu a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Er nad oedd hyn yn unioni anghydbwysedd cychwynnol a pharhaus o ran rhywedd yn ystod eu rhaglen prentisiaethau iau, fe wnaeth y gweithgaredd annog dysgwyr presennol i ystyried llwybrau galwedigaethol nad ydynt yn draddodiadol, yn ogystal â chyfleoedd dilyniant uniongyrchol o fewn eu llwybrau galwedigaethol presennol. O ganlyniad, dewisodd ychydig iawn o ddysgwyr gyflwyno ceisiadau am wahanol feysydd galwedigaethol a symud ymlaen iddynt ar ôl cwblhau eu rhaglen bresennol, yn hytrach na dim ond parhau ar hyd eu llwybr galwedigaethol presennol.

Roedd pob darparwr yn cydnabod pwysigrwydd darparu unrhyw gymorth ychwanegol yr oedd ei angen ar ddysgwyr unigol. Gwnaeth llawer o ddarparwyr yn siŵr fod anghenion cymorth unigol yn cael eu trafod ac yr aethpwyd i'r afael â nhw fel rhan o'r prosesau atgyfeirio a dewis. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau datblygu unigol bob amser yn cael eu rhannu na'u trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg, ac o ganlyniad, roedd hyn yn rhwystro neu'n atal parhad y cymorth ar gyfer anghenion unigol y dysgwyr dan sylw.

## (3) Cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau

### Sut caiff rhaglenni prentisiaethau iau eu cyflwyno?

Ar draws y pum coleg addysg bellach a oedd yn cynnal rhaglenni adeg ein hymweliadau sy’n cael eu hariannu’n rhannol trwy gyllid y rhaglen prentisiaethau iau gan Lywodraeth Cymru, roedd y ddarpariaeth yn gweithredu o dan amrywiaeth o enwau neu frandiau, sy’n amrywio o un coleg i’r llall. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni y cyfeirir atynt, neu sy’n cael eu brandio, fel prentisiaethau iau, academïau iau neu ddarpariaeth mynediad ieuenctid. Roedd rhai o’r gwahaniaethau yn yr enwau a ddefnyddir yn lleol i ddisgrifio’r rhaglenni hyn yn adlewyrchu dewisiadau lleol neu ffactorau hanesyddol.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr y rhaglen prentisiaethau iau ar gael i bob coleg am swm penodedig fesul dysgwr, ac wedi’i fwriadu fel cyfraniad rhannol at gostau cyffredinol y rhaglen. Disgwylir y byddai crynswth costau cyflwyno’r rhaglen yn cael ei dalu gan awdurdodau lleol ac/neu ysgolion y dysgwyr. Caiff trefniadau ar gyfer ariannu cludiant a phrydau ysgol am ddim eu cytuno o fewn trefniadau cyllid lleol.

Gwelodd colegau fod cyllid penodol y rhaglen prentisiaethau iau gan Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig at y costau ychwanegol sy’n cael eu gwario wrth ddarparu opsiynau galwedigaethol estynedig, a oedd yn aml yn eu hanfod yn ddrutach i’w cyflwyno na’r pynciau sy’n ffurfio’r cwricwlwm ysgol brif ffrwd. Heb gymorth cyllid ychwanegol o’r fath, mynegodd arweinwyr colegau bryder y byddai’r rhaglen prentisiaethau iau fel arall yn anghynaliadwy i ysgolion ac awdurdodau lleol ei chefnogi.

Roedd strwythur a chynnwys y rhaglenni hyn yn amrywio’n sylweddol rhwng darparwyr. Roedd llawer ohonynt yn gofyn i ddysgwyr fynychu’r coleg ar sail amser llawn tra roedd lleiafrif ohonynt wedi’u seilio ar gyflwyno a phresenoldeb ar y cyd, gyda dysgwyr yn mynychu’r ysgol am leiafrif o’r rhaglen, er enghraifft ar gyfer cyrsiau TGAU mewn Saesneg a mathemateg tra’n mynychu’r coleg hefyd ar gyfer agweddau eraill ar y rhaglen, yn cynnwys dosbarthiadau galwedigaethol.

Cafodd yr amrywiaeth o fodelau cyflwyno sydd wedi esblygu eu ffurfio gan y cyd-destun lleol, gan adlewyrchu materion fel cyfyngiadau cyllid, cyfyngiadau ffisegol, ac argaeledd a chapasiti staffio, yn ogystal â phellterau ac amseroedd teithio i astudio. Roedd yr hyblygrwydd hwn o ran dull yn cael ei werthfawrogi’n fawr gan golegau lleol, ysgolion ac awdurdodau lleol gan eu bod yn galluogi partneriaid cyflwyno i ffurfio a chytuno ar ddarpariaeth sy’n adlewyrchu ac yn bodloni amgylchiadau, cyfleoedd a chyfyngiadau lleol yn hytrach na gorfod dilyn model cyllid a chyflwyno llym wedi’i bennu ymlaen llaw.

Roedd trefniadau ar gyfer cludiant i’r coleg ac oddi yno hefyd yn amrywio rhwng darparwyr. Mewn rhai ardaloedd, roedd dysgwyr yn teithio ar gludiant dynodedig ysgol neu goleg, ond mewn ardaloedd eraill, roedd dysgwyr yn teithio i’r coleg, ac oddi yno, ar gludiant cyhoeddus. Pan oedd cludiant cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio,

roedd dysgwyr yn cael cardiau teithio i’w galluogi i deithio yn rhad ac am ddim. Yn unol â modelau cyflwyno cyffredinol, roedd dewis dulliau cludiant yn cael ei ffurfio gan gyd-destun, argaeledd a chyfyngiadau lleol. Mewn ardaloedd eraill, roedd amseroedd, argaeledd a/neu gostau cludiant hefyd yn rhwystrau allweddol posibl rhag sefydlu darpariaeth prentisiaethau iau o fewn ardaloedd penodol.

Roedd rhaglenni prentisiaethau iau sy’n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yn gyfuniad o raglenni dwy flynedd (B10/11) a blwyddyn (B11). Roedd o leiaf hanner y sesiynau wedi’u hamserlennu a oedd yn cynnwys y rhaglenni cyffredinol yn tueddu i fod yn gysylltiedig â chymwysterau galwedigaethol penodol. Roedd dysgwyr yn hynod gadarnhaol am yr arddull gyflwyno uniongyrchol ymarferol a fabwysiadwyd yn yr agweddau hyn ar eu rhaglenni. Mae’r rhan fwyaf o raglenni’n cynnwys profiad yn gysylltiedig â gwaith; mae hyn fel arfer o fewn amgylcheddau gwaith realistig fel salonau neu weithdai ymarferol o fewn y coleg. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn mynd ar leoliadau profiad gwaith oddi ar y safle. Ymestynnir yr elfen yn gysylltiedig â gwaith hefyd trwy ymweliadau gan siaradwyr allanol, yn cynnwys cyflogwyr. Mae’r ffocws cryf ar weithgareddau dysgu ymarferol sydd wedi’u cysylltu’n benodol â meysydd galwedigaethol yn agwedd bwysig ar y ddarpariaeth a’r addysgeg sy’n gwneud rhaglenni prentisiaethau iau yn llwyddiannus ar gyfer y grŵp oedran hwn a’r garfan hon o ddysgwyr. Yn benodol, mae’r cysylltiad cryf â gwaith a chyflogaeth yn helpu darparu cyd-destun dilys ar gyfer dysgu, ac yn helpu ennyn a chynnal diddordebau dysgwyr.

Mae’r ffocws galwedigaethol estynedig hwn sy’n ffurfio mwyafrif yr amser astudio sydd wedi’i gynnwys mewn rhaglenni prentisiaethau iau yn gwahaniaethu’n glir y rhaglenni hyn oddi wrth gyfleoedd dysgu galwedigaethol mwy cyfyngedig a byrrach sydd ar gael fel opsiynau pwnc o fewn y cwricwlwm ysgol brif ffrwd lleol, gan gynnwys opsiynau pynciau galwedigaethol cyswllt ysgolion a gyflwynir weithiau yn yr ysgol neu’r coleg am ychydig o oriau bob wythnos. Adlewyrchwyd pwysigrwydd y gwahaniaethu hwn mewn adborth uniongyrchol gan lawer o ddysgwyr a staff yn ystod ein hymweliadau, wrth nodi hyn yn un o’r rhesymau allweddol pam roedd rhaglenni prentisiaethau iau yn aml yn llwyddo i ymgysylltu’n well â dysgwyr a oedd wedi ymddieithrio gan opsiynau prif ffrwd.

Mae cyrsiau TGAU mewn Saesneg, mathemateg a rhifedd hefyd wedi’u cynnwys ym mhob rhaglen a llwybr cyffredinol. Roedd adborth dysgwyr ar elfennau TGAU o’r rhaglen yn gymysg a chryn dipyn yn llai cadarnhaol na’r safbwyntiau a fynegwyd ar sesiynau sy’n benodol i alwedigaeth. At ei gilydd, roedd adborth dysgwyr ar gyrsiau TGAU yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol pan oedd gwersi’n cael eu cyflwyno gan staff a gyflogir yn benodol i addysgu ar raglenni prentisiaethau iau.

**Cameo – ymgysylltu â dysgwyr amharod mewn sesiynau mathemateg a rhifedd**

Yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, roedd dysgwyr yn llawn canmoliaeth am sesiynau mathemateg a rhifedd lle roedd y tiwtor arbenigol yn esbonio'n glir ba agweddau ar y cwrs a oedd yn debygol o fod yn hynod werthfawr mewn gwahanol agweddau ar eu bywydau. Er enghraifft, sesiynau yn amlygu'r medrau hynny sydd eu hangen fwyaf yn eu llwybr galwedigaethol dewisol a medrau eraill sy'n debygol o fod yn fwyaf defnyddiol o fewn eu bywydau teuluol bob dydd a'u bywydau gweithio yn gyffredinol. Roedd y tiwtor hefyd yn agored gyda dysgwyr am ba agweddau eraill yr oedd angen iddynt ymdrin â nhw yn bennaf neu'n gyfan gwbl er mwyn uchafu'r cyfle i gyflawni'r radd uchaf bosibl y gallant ei chyflawni, er eu bod yn annhebygol o ddefnyddio'r agweddau hyn ar y pwnc llawer, os o gwbl, yn eu bywydau yn y dyfodol.

Mabwysiadodd darparwyr amrywiaeth o wahanol ymagweddau hefyd at ddarparu gweithgareddau tiwtorial a chyfoethogi, gan gynnwys trefniadau yn gysylltiedig ag agweddau statudol ar ddarpariaeth fel crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) ac addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh). Roedd y rhain yn cynnwys naill ai sesiynau grŵp dynodedig a sesiynau tiwtorial unigol wedi'u hamserlennu neu ddulliau eraill a oedd yn defnyddio diwrnodau neu sesiynau thema i ymdrin â thestunau allweddol. At ei gilydd, dywedodd staff a dysgwyr mai cynnwys a pherthnasedd sesiynau oedd y ffactor pwysicaf wrth bennu effeithiolrwydd yr agweddau hyn ar y rhaglen yn hytrach nag uwchraddoldeb cynhenid unrhyw fodel cyflwyno penodol.

Roedd meintiau dosbarthiadau yn llawer llai ar y cyfan mewn sesiynau prentisiaethau iau yn y coleg na'r hyn yr oedd dysgwyr yn ei brofi yn yr ysgol yn y gorffennol. Yn ein trafodaethau â dysgwyr, roeddent yn gyson gadarnhaol am y gwahaniaeth hwn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi gwerth sylweddol ar argaeledd ac ymatebolrwydd gwell y staff. Roedd y gallu gwell hwn i ymgysylltu, cefnogi a monitro cynnydd dysgwyr unigol yn sicr yn un o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol rhaglenni prentisiaethau iau o ran diwallu anghenion dysgwyr a oedd yn aml yn ei chael yn anodd ymgysylltu a chynnal diddordeb mewn gweithgareddau dysgu.

Roedd dysgwyr, staff addysgu a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, yn gwerthfawrogi effaith gadarnhaol hyfforddwyr dysgu dynodedig sy'n cefnogi dysgwyr ym mhob grŵp prentisiaethau iau. Er enghraifft, roedd gan hyfforddwyr dysgu rôl allweddol mewn helpu cynnal cyfathrebu effeithiol rhwng yr holl randdeiliaid, ac yn darparu cymorth personol a chymorth addysgu ar gyfer dysgwyr.

Yn ein trafodaethau ag arweinwyr colegau, staff, cynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau lleol, dywedwyd yn aml fod staff a oedd yn cael eu recriwtio a'u dewis yn benodol i weithio ar raglenni prentisiaethau iau yn ffactor llwyddiant hanfodol, yn enwedig ymhlith darparwyr mwy lle roedd digon o ddysgwyr i gynnal y rolau hyn. Roedd ychydig o arweinwyr colegau hefyd yn hynod gadarnhaol am staff a oedd yn cael eu recriwtio o gefndiroedd lle roeddent yn cael eu defnyddio i gynorthwyo pobl

ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio ag addysg, fel y staff hynny sydd â chefndir mewn gwaith ieuenctid.

Amlygodd arweinwyr a staff colegau hefyd fudd ac effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol a gynhelir o fewn eu colegau ar gyfer staff addysgu a staff cymorth a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau. Er enghraifft, nodwyd bod gweithgareddau wedi’u cynllunio i helpu staff i reoli ymddygiad heriol dysgwyr yn hynod ddefnyddiol.

At ei gilydd, roedd llawer o ddysgwyr ar raglenni prentisiaethau iau yn dirnad ac yn croesawu’r ffaith fod ymagwedd colegau yn llai ffurfiol na’r ysgol. Er enghraifft, dywedodd dysgwyr wrthym fod yn llawer gwell ganddynt beidio â chael gwisg ysgol a bod dim clychau ar ddiwedd pob gwers, bod ganddynt fwy o ryddid a bod staff yn aml yn cael eu gweld yn bobl ddeallgar, gyfeillgar a chefnogol.

Roedd trefniadau ar gyfer cyflwyno dosbarthiadau prentisiaethau iau o ran ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau yn amrywio rhwng ac o fewn colegau. Mewn lleiafrif o achosion, sefydlwyd ardaloedd dynodedig o fewn campws coleg ar gyfer dysgwyr prentisiaethau iau, gan gynnwys mannau cymdeithasol i ddysgwyr prentisiaethau iau eu defnyddio yn ystod eu hamseroedd egwyl ac amser cinio.

Ym mwyafrif y colegau, roedd rhaglenni prentisiaethau iau yn cael eu cyflwyno mewn cyfleusterau cymysg neu integredig ochr yn ochr â dysgwyr eraill. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran sesiynau ymarferol yn gysylltiedig â chymwysterau galwedigaethol, fel adeiladu a thrin gwallt. Pan mae cyfleusterau dynodedig wedi cael eu creu, dywedodd staff fod hyn yn fuddiol ar gyfer rheoli ymddygiad dysgwyr ac o ran cael ystafelloedd ymneilltuo ymarferol a hygyrch i’w defnyddio gyda thrafodaethau un i un neu drafodaethau grwpiau bach a sesiynau cymorth.

Dilynodd ychydig o ddysgwyr eu cymwysterau dysgu a chymwysterau cysylltiedig trwy ymuno â rhaglenni addysg bellach ôl-16 prif ffrwd ochr yn ochr â dysgwyr hŷn. Yn yr achosion hyn, nid oedd cyfrifoldeb a threfniadau ar gyfer asesiadau risg unigol bob amser yn glir, ac mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd asesiadau risg unigol ar waith neu nid oeddent yn ddigon trylwyr.

At ei gilydd, ar draws rhaglenni prentisiaethau iau, roedd ffocws cryf ar les a chymorth dysgwyr, gan gynnwys diogelu. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o athrawon, hyfforddwyr dysgu a thimau cymorth dysgwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i ddarparu cymorth teilwredig i ddysgwyr unigol a oedd yn aml yn wynebu nifer o heriau yn eu bywydau bob dydd. Yn yr achosion gorau, roedd ysgolion yn cael gwybod yn llawn am gynnydd eu dysgwyr ac am unrhyw anawsterau yr oeddent yn eu cael. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, roedd bylchau mewn gwybodaeth wedi’u hachosi gan ddiffyg cynlluniau dysgu a chymorth ar y cyd neu ddiffyg cyfathrebu effeithiol rheolaidd rhwng staff ar draws ac o fewn ysgolion a cholegau, yn rhwystro cynnydd dysgwyr unigol ac yn rhwystro effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen.

Mae canllawiau yn y Cyfeiriadur Rhaglenni 2023/24 (Llywodraeth Cymru, 2023, tud.31) yn datgan bod disgwyl i ddysgwyr ddilyn cwricwlwm amser llawn yn unol â diwrnod ysgol. I fodloni’r isafswm amser gwersi wythnosol a awgrymir ar gyfer disgyblion ysgol 12-16 oed, bydd angen 25 awr yr wythnos ar gyfer hyn. Yn

ymarferol, roedd trefniadau amserlenni yn amrywio’n sylweddol rhwng colegau. Mewn lleiafrif o achosion, roedd amserlenni colegau yn adlewyrchu trefniadau ysgolion, gyda dysgwyr wedi’u hamserlennu i fynychu dosbarthiadau am bum niwrnod llawn yr wythnos, yn unol â gofynion awgrymedig. Fodd bynnag, ar gyfer mwyafrif y rhaglenni, trefnodd y colegau amserlenni dysgwyr am lai o oriau bob wythnos na’r hyn sy’n arferol yn yr ysgol.

Roedd lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu am lai o oriau na gofynion amserlen gyffredinol fel rhan o gynllun cymorth bugeiliol (CCB) unigol penodol. Roedd yr ymyriadau hyn wedi’u cynllunio i gynorthwyo plant a phobl ifanc nad oeddent yn bodloni gofynion rhaglenni yn llawn, ac o ganlyniad, gallent fod mewn perygl o gael eu heithrio’n barhaol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023b) yn datgan y dylai CCBau fod yn gyfyngedig o ran amser ac y dylid eu hadolygu’n rheolaidd o leiaf bob chwe wythnos; parhaodd mwyafrif y dysgwyr ar CCBau ar ofynion llai o oriau am gyfnodau hirach na hyn. Yn aml, nid oedd staff na dysgwyr yn ymwybodol o’r dyddiad bwriadedig ar gyfer cynllun i ddysgwr ddychwelyd i fynychu ar sail amser llawn.

Pan roedd yr oriau addysgu amserlenedig wythnosol safonol ar gyfer pob un o’r dysgwyr islaw canllawiau Llywodraeth Cymru, dywedodd colegau mai heriau logistaidd o ran amseroedd teithio i astudio a phellterau yw’r prif reswm am y gwahaniaeth hwn, ac roedd gan lawer o ddysgwyr gryn dipyn o daith i gampws y coleg lle roeddent wedi’u lleoli.

Mae’r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd rhaglenni prentisiaethau iau yn barhaus a monitro a gwerthuso allweddol yn amrywio rhwng ardaloedd lleol. Mae colegau’n adolygu’r rhaglen fel rhan o’u proses hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Pan mae gan yr awdurdod lleol rôl bwysig mewn ariannu darpariaeth prentisiaethau iau a dewis dysgwyr i gymryd rhan yn y rhaglen, maent hefyd yn tueddu i fod ag ymglymiad sylweddol mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso. Er enghraifft, gallai swyddogion baratoi adroddiadau monitro, sy’n cael eu hystyried yn rhan o drefniadau craffu ehangach o fewn yr awdurdod lleol. Pan fydd gan ysgolion y brif ran mewn ariannu’r rhaglen a dewis dysgwyr i gymryd rhan yn y rhaglen, maent hefyd yn cael eu cynnwys mewn monitro a gwerthuso parhaus fel rhan o drefniadau sicrhau ansawdd cyffredinol. At ei gilydd, nid yw trefniadau sicrhau ansawdd manwl a chydlynus wedi’u datblygu’n ddigonol.

## (4) Effaith rhaglenni prentisiaethau iau

### Beth yw effaith rhaglenni prentisiaethau iau?

Mae rhaglenni prentisiaethau iau wedi bod yn effeithiol yn ymestyn cyfleoedd galwedigaethol cyn 16 i ddysgwyr sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu â'r cwricwlwm ysgol brif ffrwd ac y mae'n well ganddynt ymagweddau mwy ymarferol ag iddynt ffocws galwedigaethol at ddysgu. Fodd bynnag, adeg ein hymweliadau, roedd rhaglenni prentisiaethau iau dim ond yn cael eu cyflwyno mewn 5 o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Mae hyn wedi cyfyngu ar effaith gyffredinol y rhaglen ac wedi arwain at annhegwch mewn cyfleoedd dysgu rhwng rhanbarthau ac ardaloedd lleol o fewn Cymru. Pan roedd rhaglenni prentisiaethau iau ar gael, roeddent yn gwneud cyfraniad pwysig at helpu cynorthwyo pobl ifanc a allai fod mewn perygl o fod yn bobl NACH (nid ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a goresgyn ymddieithrio â dysgu.

Roedd cyfraddau presenoldeb llawer o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaethau iau gryn dipyn yn uwch na'u cyfraddau presenoldeb blaenorol yn yr ysgol. Er gwaethaf y gwelliannau mynych hyn, roedd arweinwyr a staff colegau yn nodi o hyd fod presenoldeb a phrydlondeb yn feysydd i'w gwella. Dywedodd arweinwyr ac athrawon fod effaith 'drannoeth COVID' ar bresenoldeb a phrydlondeb yn parhau o hyd ymhell y tu hwnt i'r cyfnod pan oedd cyfyngiadau ar waith. Un maes pryder penodol yn gysylltiedig â rhaglenni prentisiaethau iau a gyflwynir ar draws safleoedd colegau ac ysgolion oedd bod y dysgwyr hynny naill ai'n dewis peidio â mynychu'r elfennau yn yr ysgol o'u rhaglenni dysgu neu'n eu mynychu'n achlysurol yn unig.

Mae ychydig o ddysgwyr yn gadael y brentisiaeth iau yn gynnar. Gwelsom y gallai hyn fod oherwydd bod y dysgwr a'r rhiant wedi penderfynu nad yw'r rhaglen yn addas neu o ganlyniad i faterion presenoldeb neu ddisgyblu. Pan fydd dysgwyr yn gadael y rhaglen yn gynnar, mae'r coleg yn gweithio gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i gytuno ar drefniadau i'r dysgwr ddychwelyd i'r ysgol neu drosglwyddo i drefniadau amgen addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) fel uned cyfeirio disgyblion.

Roedd adborth dysgwyr ar eu profiad yn y rhaglen prentisiaethau iau yn eithriadol o gadarnhaol. At ei gilydd, yn ein trafodaethau grwpiau ffocws gyda dysgwyr ac yn ystod teithiau dysgu, rhoddodd y rhan fwyaf ohonynt yr adborth cadarnhaol cryfaf yn gysylltiedig ag elfennau ymarferol uniongyrchol eu rhaglenni prentisiaethau iau. Crybwyllodd llawer o ddysgwyr hefyd yr effaith gadarnhaol gyffredinol a gafodd eu cyfranogiad mewn prentisiaethau iau ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Roedd y nifer fach o rieni a gyfarfuom yn ystod ein hymweliadau â cholegau hefyd yn atgyfnerthu'r adborth cadarnhaol hwn i raddau, trwy wneud sylwadau ar welliannau yn hwyliau a lefelau ymgysylltu cyffredinol eu plentyn gartref.

Yn ystod ein hymweliadau â cholegau, clywsom lawer o enghreifftiau o'u profiadau dysgu a'r effeithiau cadarnhaol yr oedd cymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaethau

iau yn eu cael ar fywydau dysgwyr yn uniongyrchol gan y dysgwyr eu hunain. Dangosir enghreifftiau o adborth ac awgrymiadau dysgwyr isod.

Dysgwyr a oedd wedi cwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus yn ddiweddar:

> *Ces i gymorth gwell fel myfyriwr, llai o wersi dibwys, amgylchedd gwell, fe wnes i ffrindiau gwell gyda phobl yn fy nosbarth ac fe ges i gymorth da gan fy hyfforddwr dysgu.*

> *Fe wnaeth y rhaglen prentisiaethau iau fy helpu'n fawr i gyflawni rhagoriaeth. Roedd y coleg yn eich gweld chi fel unigolyn ac roedd llawer o gymorth ychwanegol lle roedd angen hynny, efallai. Hefyd, yn ystod tymor arholiadau, bydden nhw'n cynnig sesiwn adolygu un i un i chi er mwyn eich helpu i gyflawni'ch prif amcan.*

> *Rydw i bellach yn berson llawer gwell oherwydd y prentisiaethau iau. Oni bai am y rhaglen prentisiaethau iau, fyddwn i ddim wedi cael unrhyw addysg. Mae fy nyled yn fawr iddyn nhw.*

Dysgwyr prentisiaethau iau Blwyddyn 11:

> *Yn yr ysgol, fydden nhw ddim yn rhoi unrhyw gymorth ar gyfer materion sensitif, roedd amgylchedd yr ysgol yn wenwynig, dim rhesymu na meddwl y tu ôl i gael eich cadw i mewn ar ôl yr ysgol, gallai'r ysgol deimlo fel rhywbeth a oedd yn cael ei orfodi'n fawr, a rhoddodd feddylfryd gwael i fi.*

> *Roedd y pethau gorau'n cynnwys y cymorth a oedd yn cael ei roi wrth siarad â staff, ac mae gwaith ymarferol yn gweddu'n well o lawer i fi na phynciau traddodiadol.*

> *Mae mathemateg a Saesneg yn llawer haws yn y coleg nag yn yr ysgol oherwydd rydw i'n cael llawer mwy o gymorth a chefnogaeth, ac mae grŵp llai, fel bod pawb yn cael eu clywed.*

> *Mae ein tiwtoriaid yn llawer mwy cefnogol nag yn yr ysgol. Fe wnaeth y coleg wella fy mhresenoldeb llawer, mae ein tiwtoriaid yn ein trin ni fel oedolion ar sail ein haeddfedrwydd, ac mae hyn yn help mawr, yn fy marn i.*

> *Mae'r rhaglen prentisiaethau iau yn rhoi dechrau da i ni ar gyfer ein dyfodol ac mae'n fy helpu i wybod mwy am beth rydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol. Gallwch chi droi at unrhyw athro ac maen nhw bob amser yno i'ch cynorthwyo.*

> *Mae'n ddosbarth bach o gymharu â'r ysgol ac mae'n well, a does dim gwisg ysgol! Mae pawb ar y rhaglen prentisiaethau iau fel teulu.*

> *Mae'n amgylchedd hollol wahanol, wedi'i amgylchynu gan bobl newydd a chyfleoedd anhygoel, mae'n wych cael cyfle arall ar gyfer addysg. Hwn oedd y penderfyniad gorau wnes i.*

> *Mae'r coleg yn wahanol i'r ysgol oherwydd mae llai o bobl yn fy nosbarth i, a does neb yn fy marnu oherwydd pwy ydw i, sy'n helpu llawer â'm gorbryder*

*cymdeithasol. Mae gwallt a harddwch yn greadigol, ac rydw i’n berson creadigol.*

Roedd cyfraniadau gan ddysgwyr prentisiaethau iau Blwyddyn 10 yn cynnwys:

*Mae’r rhaglen prentisiaethau iau yn fy helpu llawer – o aelodau staff i les. Os oes gen i unrhyw broblemau, rydw i’n gallu siarad â staff sy’n fy helpu i â phroblemau yn y coleg i broblemau personol. Doeddwn i byth yn gyrru ‘mlaen â’m hathrawon yn yr ysgol, ac roedd hynny’n effeithio ar fy addysg.*

*Mae’r dosbarthiadau’n llai na dosbarthiadau yn yr ysgol, mae athrawon yn ein parchu ni, y dosbarthiadau gwallt a harddwch, ac rydw i’n gwneud ffrindiau gyda phobl sy’n hoffi’r un pethau â mi.*

*Mae’r coleg yn hwyl, rydw i’n hoffi’r cwrs yn fawr, ac rydym ni i gyd yn hoffi gosod brics.*

*Rydw i’n dysgu llawer mwy nag yn yr ysgol. Rydw i’n mwynhau mynd i’r coleg, ac mae’n rhoi rheswm i fi ddeffro.*

*Rydw i’n meddwl bod y coleg yn addas iawn i blant fel fi sy’n methu ymdopi mewn ysgolion arferol. Mae’n gyfle da iawn i gael swydd dda pan fyddwn ni’n tyfu i fyny.*

*Rydw i’n mwynhau gosod brics a gwaith saer. Rydw i’n gwneud hyn er mwyn cael swydd dda. Mae’n braf cyfarfod â phobl newydd ac rydw i’n mwynhau archwilio’r campws yn ystod amser egwyl. Mae’r coleg yn ffordd dda o addysgu plant nad ydyn nhw’n addas ar gyfer yr ysgol.*

*Mae’n ffordd fwy uniongyrchol o ddysgu, a bydd yn fy helpu i gael swydd dda, sy’n gyfle da iawn i mi gan nad oeddwn i’n gweithio’n dda yn yr ysgol.*

Awgrymiadau am welliannau sy’n aml yn gysylltiedig â darparu gwybodaeth i ddarpar ddysgwyr:

*Rhoi gwybod i fwy o bobl, neu ddweud wrthym ni am raglenni prentisiaethau iau Blwyddyn 10 ac 11.*

*Hysbysebu cyfleoedd prentisiaethau iau ym Mlwyddyn 7 neu 8.*

*Cynnal diwrnodau agored ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 a chynnal diwrnodau rhagflas ôl-16 ar gyfer prentisiaid iau presennol i helpu â dewisiadau dilyniant.*

Dangosodd data cyrhaeddiad lleol a ddarparwyd gan golegau fod bron pob un o’r dysgwyr a oedd yn cwblhau rhaglenni prentisiaethau iau yn ennill eu prif gymwysterau galwedigaethol. Roedd y cymwysterau hyn fel arfer yn sylweddol o ran eu natur ac yn gyflawniadau sylweddol i’r dysgwyr, yn enwedig yn sgil eu mannau cychwyn cyn ymuno â’r rhaglenni prentisiaethau iau.

Er bod llawer o ddysgwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu eu medrau Saesneg, mathemateg a rhifedd, roedd cyrhaeddiad cyffredinol cymwysterau TGAU

gradd uchel (gradd C neu'n uwch, lle bo'n berthnasol) yn parhau i fod yn her fawr i'r garfan hon o ddysgwyr, er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn sefyll yr arholiadau hyn ac yn cyflawni deilliannau â gradd.

Roedd data cyrchfannau dysgwyr a ddarparwyd gan golegau hefyd yn dangos bod llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen yn syth i raglenni AB ôl-16 prif ffrwd ar ôl cwblhau eu rhaglen prentisiaethau iau. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol ac yn adlewyrchu effaith fawr cymryd rhan yn y rhaglenni hyn a newid nodedig yn agweddau'r dysgwyr hyn at ddysgu, a'u hamgyffrediad o ddysgu: o ymddieithrio mawr o ddysgu i wneud dewis cadarnhaol a gweithredol mewn dysgu ôl-orfodol. Aeth ychydig o ddysgwyr eraill prentisiaethau iau ymlaen i Twf Swyddi Cymru a Mwy neu raglenni prentisiaethau llawn.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u seilio ar y canlynol:

- Ymweliadau wyneb yn wyneb gan Arolygwyr Ei Fawrhydi â phob un o'r pum coleg addysg bellach sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau ar hyn o bryd
- Gwybodaeth o arolygiadau diweddar ac ymweliadau gan arolygwyr cyswllt dros y ddwy flynedd ddiwethaf â cholegau addysg bellach sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau
- Gwybodaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi manylion am niferoedd y dysgwyr a chyllid cysylltiedig fesul dysgwr a ddyrennir yn uniongyrchol i bob coleg addysg bellach yn cyflwyno rhaglenni prentisiaethau iau er 2017

### Ymweliadau â cholegau addysg bellach

Cynhaliwyd ymweliadau rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2023. Roeddent wedi'u seilio ar bob un o'r 5 coleg addysg bellach a gyflwynodd raglenni prentisiaethau iau yn 2023-2024. Ymwelom â 5 coleg, sef Coleg Pen-y-bont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr Abertawe a Grŵp NPTC. Roedd pob un o'r ymweliadau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r coleg, yr ysgolion a'r awdurdodau lleol.

Roedd ymweliadau'n cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfarfodydd ag uwch arweinwyr y coleg
- Cyfarfodydd ag arweinwyr awdurdodau lleol ac ysgolion a/neu staff sy'n ymwneud â rhaglenni prentisiaethau iau (cyfarfodydd hybrid/ar-lein)
- Cyfarfodydd ag arweinwyr colegau a rheolwyr rhaglenni prentisiaethau iau
- Teithiau dysgu i ymweld â dosbarthiadau prentisiaethau dysgu a chyfleusterau a ddefnyddir gan y dysgwyr hyn – darparodd y rhain gyfleoedd defnyddiol i ymgysylltu â dysgwyr, rhieni a staff, hefyd
- Grwpiau ffocws gweithdai dysgwyr gyda grwpiau o ddysgwyr iau presennol Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 sy'n mynychu amrywiaeth o lwybrau galwedigaethol prentisiaethau iau
- Grwpiau ffocws gweithdai dysgwyr gyda grwpiau o gyn-ddysgwyr prentisiaethau iau a fynychodd eu rhaglen yn y coleg, a'i chwblhau'n llwyddiannus
- Craffu ar ystod o wybodaeth a ddarparwyd gan y colegau yn ymwneud â rhaglenni a dysgwyr prentisiaethau iau

# Niferoedd – meintiau a chyfrannau

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Colegau Cymru (2021) *Thema 1: Ehangu Hawliau Dinasyddion – galwadau polisi Colegau Cymru i Lywodraeth nesaf Cymru* (ar-lein). Ar gael o: https://www.colleges.wales/image/publications/briefings/Policy%20Asks%20Senedd%20Elections%202021/Eng/Theme%201%20Brief.pdf (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Cymwysterau Cymru (2024) *Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16* (ar-lein). Ar gael o: Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 | Cymwysterau Cymru (Darllenwyd: 16 Ebrill 2024)

Department for Education (2017) *Alternative provision: effective practice and post-16 transition* Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/alternative-provision-effective-practice-and-post-16-transition (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Department for Education (2023) *Full-time enrolment of 14 to 16-year-olds in further education and sixth-form colleges: 2023 to 2024 academic year* (ar-lein). Ar gael o: Full-time enrolment of 14 to 16-year-olds in further education and sixth-form colleges: 2023 to 2024 academic year - GOV.UK (www.gov.uk) (Darllenwyd 16 Ebrill 2024)

Edge Foundation (2018) *FE and skills across the four countries of the UK* (ar-lein). Ar gael o: https://www.edge.co.uk/research/projects/research-reports/FE-and-Skills-across-the-Four-Countries-of-the-UK/ (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Estyn (2022a) *Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach Coleg Pen-y-bont* (ar-lein) Ar gael o: Coleg Pen-y-bont | Estyn (llyw.cymru) (Darllenwyd 30 Ionawr 2024)

Estyn (2022b) *Prentisiaid Iau yng Ngholeg Pen-y-bont* (ar-lein) Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/prentisiaid-iau-yng-ngholeg-pen-y-bont (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2017) *Datganiad Ysgrifenedig – Ehangu’r Rhaglen Prentisiaethau Iau* (2017) (ar-lein) Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymestyn-y-rhaglen-prentisiaeth-iau (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2018a) *Canllawiau i Ysgolion ar Brentisiaethau yng Nghymru* (ar-lein) Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/canllawiau-i-ysgolion-ar-brentisiaethau-yng-nghymru.pdf (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2018b) *Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Brentisiaethau* (ar-lein) Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/canllawiau-i-awdurdodau-lleol-ar-brentisiaethau-yng-nghymru.pdf (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2018c) *Y flwyddyn ysgol ac amserau sesiynau* (ar-lein). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/22-y-flwyddyn-ysgol-ac-amserau-sesiynau.pdf (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).

Llywodraeth Cymru (2023a) *Y Cyfeiriadur Rhaglenni 2023/24 Gwybodaeth a Nodiadau Cefndir* (ar-lein) Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/y-cyfeiriadur-rhaglenni-2023-2024_0.pdf (Darllenwyd: Ionawr 30, 2024).

Llywodraeth Cymru (2023b) *Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB)* (ar-lein) Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/rhaglen-cymorth-bugeiliol-rhcb (Darllenwyd; 16 Ebrill 2024).

Llywodraeth Cymru (2024a) *Y flwyddyn ysgol, amserau sesiynau a dyddiadau tymhorau* (ar-lein). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/2021-pennod-22-y-flwyddyn-ysgol-amserau-sesiynau-a-dyddiadau-tymhorau.pdf (Darllenwyd: 16 Ebrill 2024).

Llywodraeth Cymru (2024b) Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru (ar-lein) Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru - Hwb (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2024c) *Canllawiau statudol i ddysgwyr 14 i 16 – Dysgu 14 i 16 o fewn Cwricwlwm i Gymru* (ar-lein). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: Canllawiau statudol drafft i ddysgwyr 14 i 16 (llyw.cymru) Darllenwyd 16 Ebrill 2024

UCU (2019) *Junior apprenticeships in Welsh further education* (ar-lein). Ar gael o: https://www.ucu.org.uk/article/10259/Junior-apprenticeships-in-Welsh-further-education (Darllenwyd: 30 Ionawr 2024).